# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 1 Tachwedd 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(25)v3

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**
Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
**Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Remploy (30 munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Darparu'r Weledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol – Gyda'n Gilydd dros Iechyd (30 munud)**

**5. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Archwiliad yr Uned Safonau Ysgolion (30 munud)**

**6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Senedd y DU ynghylch Addysg (15 munud)**

**NDM4835 Leighton Andrews (Rhondda)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ychwanegol at y darpariaethau y cyfeirir atynt yng nghynigion NNDM4731 ac NNDM4660, y darpariaethau hynny y daethpwyd â hwy gerbron yn y Bil Addysg sy'n ymwneud â phwerau i osod cosb ariannol, adennill costau, derbyn apelau, rhoi cyfarwyddiadau a thynnu cydnabyddiad yn ôl oddi ar gyrff sy'n cael eu cydnabod, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Dogfennau Ategol**
*Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Hydref 2011 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).*

*I weld copi o Fil Senedd y DU ynghylch Addysg, ewch i:*
http://services.parliament.uk/bills/2010-11/education.html

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau

**7. Dadl ar adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru (60 munud)**
**NDM4836 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2010-11 ac yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb yn ffurfiol iddo erbyn 31 Mawrth 2012.

**Dogfen Ategol**
*Gellir gweld Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2010-11 drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:*
http://www.complantcymru.org.uk/cy/rhestr-cyhoeddiadau/

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y pryder a godwyd gan y Comisiynydd Plant:

a) nad yw strategaethau'n gweithio gyda'i gilydd nac yn gweithio ar lawr gwlad i wella bywydau plant;

b) nad yw polisi na chyfraith genedlaethol yn cael eu gweithredu'n gyson; ac

c) bod llinellau atebolrwydd yn annelwig, ac na chadwir at addewidion.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu darparu ymateb i'r adroddiad cyn 31 Mawrth.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod amserlenni clir ar gyfer cyflawni pwyntiau gweithredu yn ei hymateb i'r Adroddiad.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mercher, 2 Tachwedd 2011